



## News Release

Media enquiries: 020 3681 2775

HM Inspectorate of Probation  
1st Floor, Civil Justice Centre, 1 Bridge Street West, Manchester M3 3FX  
0161 240 5336 [www.justice.gov.uk/about/hmi-probation](http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation)



Inspection of  
Adult Offending Work  
Arolygiad o Waith Troseddu Oedolion

22 Gorffennaf 2014

### I'W GYHOEDDI AR UNWAITH

#### **AROLYGIAD O WAITH TROSEDDAU OEDOLION YNG NGHYMRU: CANFYDDIADAU CYMYSG**

Roedd angen gwella'r gwaith yr oedd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru yn ei wneud i amddiffyn y cyhoedd a lleihau'r risg o aildroseddu, meddai Paul McDowell, Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi, wrth gyhoeddi adroddiad arolygiad diweddar.

Mae arolygiadau'n asesu a yw dedfryd y llys yn cael ei chyflawni'n effeithiol, ac a yw gwaith gyda'r troseddwr unigol yn amddiffyn y cyhoedd, yn lleihau'r risg o aildroseddu ac yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i lysoedd a dioddefwyr. Yr arolygiad hwn yw'r diwethaf o chwech lle mae arolygwyr yn edrych yn fanylach ar waith Ymddiriedolaethau Prawf i amddiffyn plant a phobl ifanc.

Roedd y canlynol yn peri pryder i arolygwyr:

- roedd yr asesiad cychwynnol o debygolrwydd y troseddwr o aildroseddu naill ai heb gael ei gwblhau neu wedi cael ei gwblhau'n rhy hwyr mewn gormod o achosion. Golygai hyn na ellid rhoi ystyriaeth briodol bob amser i'r dulliau a fyddai fwyaf tebygol o fod yn effeithiol wrth weithio gyda'r unigolyn;
- roedd nifer o achosion heb dderbyn sgrinio cychwynnol na dadansoddiad llawn o risg y troseddwr o beri niwed difrifol i eraill ac roedd rhy ychydig o achosion yn cynnwys cynllun effeithiol i reoli'r risg o niwed a achosid gan droseddwr;

- roedd rhy ychydig o droseddwyr yn cyfrannu at lunio cynllun eu dedfryd, a olygai fod cyfle pwysig yn cael ei golli i ennyn cydweithrediad unigolion mewn gwaith i'w gyflawni fel rhan o'u gorchymyn llys;
- nid oedd adroddiadau llys bob amser yn cynnwys gwybodaeth o wasanaethau cymdeithasol plant lle'r oedd pryderon posibl ynghylch amddiffyn plant oherwydd nad oedd ymholiadau wedi cael eu gwneud; ac
- nid oedd gweithdrefnau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn plant wedi cael eu defnyddio'n effeithiol bob amser.

Fodd bynnag, roedd arolygwyr yn falch o ganfod y canlynol:

- roedd y mwyafrif o adroddiadau llys wedi eu hysgrifennu'n dda ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ynghylch cartref ac amgylchedd cymdeithasol y troseddwr a'u tebygolrwydd o aildroseddu;
- roedd y lefel o gyswllt a drefnwyd gyda'r troseddwr, a'r adnoddau a ddyrannwyd i gwblhau gwaith a gynlluniwyd, yn briodol yn y mwyafrif o achosion;
- roedd y mwyafrif o reolwyr troseddwyr yn gadarnhaol ynghylch y dewis o ymyraethau a oedd ar gael i'w cynorthwyo yn eu gwaith ac roedd y mwyafrif o droseddwyr wedi cael eu hysbysu o wasanaethau lleol i'w cynorthwyo hwy i osgoi aildroseddu;
- roedd defnydd priodol wedi cael ei wneud o ymyraethau cyfyngol, megis cyrffw a gorchmynion cyfyngu, ac roedd y llety cymeradwy'n cyfrannu'n effeithiol at reoli'r risg o niwed a achosid gan drigolion; ac
- roedd gwaith cysylltu â dioddefwyr wedi cael ei gyflawni'n dda, gyda gwybodaeth reolaidd a chywir yn cael ei rhannu ym mron pob achos.

Roedd tua dau draean o unigolion heb gael eu rhybuddio, eu cyhuddo na'u collfarnu o drosedd bellach ers cychwyn y ddedfryd neu ryddhau ar drwydded. Fe wnaeth yr arolygwyr argymhellion i gynorthwyo'r ardal i barhau i wella, gan gynnwys asesu'n brydlon ac i safon ddigonol y tebygolrwydd o aildroseddu a'r

risg o niwed yr oedd unigolyn yn ei beri i eraill, gan sicrhau bod cynllun ar waith i reoli'r risg o niwed i eraill, a gwneud gwiriadau fel mater o drefn gyda gwasanaethau cymdeithasol plant.

Meddai Paul McDowell:

“Roedd rhai canfyddiadau siomedig o safbwynt y gwaith i leihau'r tebygolrwydd o ail-droseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Yn benodol, roedd nifer sylweddol o asesiadau cychwynnol a chynlluniau dedfrydau heb gael eu cwblhau, neu wedi cael eu cwblhau mor hwyr fel nad oeddent yn ystyrllon. Golygai hyn nad oedd troseddwr yn cael y cyfle i gydweithredu'n gynnar yn eu dedfryd ac nad oedd gwaith yn cael ei dargedu'n addas bob amser. Roedd angen i oruchwyliaeth gan reolwyr fod yn fwy trylwyr fel y gellid mynd i'r afael â'r diffygion hyn.

“Er hyn, pan oedd gwaith priodol yn cael ei gyflawni, roedd y canlyniadau'n foddhaol a gwelsom ddefnydd da o ymyraethau cyfyngol i reoli risg unigolyn o beri niwed i eraill. Roedd y lefel gywir o adnoddau ar gael yn y mwyafrif o achosion ac roedd troseddwr wedi cael eu cyfeirio at amrywiaeth helaeth o wasanaethau lleol i helpu lleihau'r tebygolrwydd o ail-droseddu.”

- DIWEDD -

#### **Nodiadau i olygyddion:**

1. Mae'r adroddiad ar gael ar [www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation](http://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation) o 22 Gorffennaf 2014 ymlaen.
2. Cyflawnwyd yr arolygiad hwn o waith troseddau oedolion yng Nghymru fel rhan o raglen Arolygu Gwaith Troseddau Oedolion gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a gychwynnodd yn Ebrill 2013 a bydd yn ymestyn i bob ardal ddaearyddol yng Nghymru a Lloegr.
3. Mae'r arolygiadau hyn yn canolbwyntio ar faterion nad ydynt yn destun ffurfiau eraill o graffu allanol: gwaith i leihau'r tebygolrwydd o ail-droseddu, rheoli a lleihau risg o niwed i'r cyhoedd, cyflawni dedfryd y llys yn effeithiol a darparu gwasanaeth i lysoedd a dioddefwyr.
4. O Fehefin 2014 mae'r gwaith a arferai gael ei gyflawni gan Ymddiriedolaethau Prawf wedi cael ei rannu rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol newydd a 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol newydd. Bydd argymhellion arolygiadau'n cael eu gweithredu gan reolwyr perfformiad NOMS a rheolwyr cyfrifon y cwmnïau newydd.

[Mae mwy o wybodaeth ar gael yma am strategaeth Gweddnewid Adsefydlu y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#)

5. Cyflawnwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn yn ystod cyfnod ychydig cyn diddymu'r ymddiriedolaethau prawf fel rhan o'r newidiadau a gyflwynwyd gan y strategaeth Gweddnewid Adsefydlu. Cafodd methodoleg yr arolygiad ei diwygio'n unol â hyn, a threuliwyd un wythnos yn arolygu'r gwaith a gyflawnwyd gan reolwyr troseddwr, ond nid oedd arolygwyr yn dychwelyd am ail wythnos i gyfarfod uwch reolwyr, dedfrydwyr a darparwyr gwasanaethau.
6. Am fwy o wybodaeth, neu i wneud cais am gyfweiliad, cysylltwch ag Alex Pentecost yn Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar 0161 240 5336. I wneud cais am gyfweiliad yn y Gymraeg, cysylltwch â Helen Davies ar 07919 490420.